

# Erlid buddiol

*“Y diwrnod hwnnw dechreuodd erlid mawr ar yr eglwys yn Jerwsalem.  
Gwasgarwyd hwy oll, pawb ond yr apostolion...” (adn. 1)*

## Beth am ddarllen Actau 8:1–8 ac yna myfyrio

Wrth imi ymweld â choleg Beiblaidd unwaith, cefais fy nhynnu i mewn i ddadl ynglŷn â pham mai dim ond y lleygwyr a wasgarwyd, pan gychwynnodd yr erlid mawr yn dilyn marwolaeth Steffan. Pam y gadawyd yr apostolion? A oedd y rhain yn fwy dewr na'r gweddill? Y teimlad yn gyffredinol ymhlith y myfyrwyr oedd hyn: fod yr apostolion, yn gyffredinol yng ngolwg yr awdurdodau ar y pryd, yn llai peryglus na'r grŵp o leygwyr, oherwydd yr oeddent yn cyd-fynd yn well gyda threfn pethau o fewn Iddewiaeth. Mae'n debyg mai'r grŵp o leygwyr a arweinwyd gan Steffan oedd yn cael ei ystyried fel y perygl pennaf, yn beryglus oherwydd eu bod yn honni, fel y gwelwyd o araith Steffan, nad oedd y Goruchaf yn byw mewn tai o wneuthuriad dynion. (Actau 7:48).

Ond bu i Steffan, a oedd yn lleygwr, ddweud hyn am y Deml wrth arweinwyr pennaf Iddewiaeth. Bu i hyn eu gwylltio, a bu iddynt ei ladd. O'r foment honno, fe syrthiodd y rhan fwyaf o'r erlid ar yr ochr leyg i'r mudiad. Mae'n wir dweud y byddai Pedr a'r apostolion eraill wedi eu rhoi i farwolaeth oni bai am eiriau Gamaliel (gweler Actau 5:33–34) ac, yn ddiweddarach, bu yna erlid ar apostolion. Lladdwyd Iago â'r cleddyf, a thafwyd Pedr i'r carchar (Actau 12:2). Ond mae'n amlwg fod y gwrthwynebiad pennaf ar y cychwyn wedi ei gyfeirio at y lleygwyr.

A diolch i Dduw am hynny. Fe arweiniodd yr erledigaeth yma at gyfnod o fendith helaeth, oherwydd bu i'r lleygwyr yma gael eu gwasgaru ar hyd Jwdea a Samaria. Agorwyd meysydd newydd i lafurio ynddynt. Ni fyddai yna eglwys yn Antiochia oni bai am y lleygwyr. Credinwyr cyffredin gychwynnodd yr eglwys, a'i chynnal, a'u gwaith hwy arweiniodd at ddanfôn y genhadaeth Gristnogol gyntaf allan ar draws yr Ymerodraeth. Mae'n amlwg mai'r lleygwyr yng nghyfnod y Testament Newydd oedd y prif symbyliad i weithgarwch. Fe ddylai hyn fod yr un fath heddiw.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Actau 11:19–21; Rhuf.16:1–16; 1 Cor.15:58

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae Paul yn ei ddweud am aelodau yr Eglwys Fore?
2. Faint o bobl o fewn eich eglwys sydd yn weithwyr?

## Gweddi

O Dduw, rwy'n gweld fod yna faes cenhadol anferth o fewn yr Eglwys ymhlith y bobl yna sydd wedi eu meddiannu gan bethau ymylol, yn cynhyrchu ychydig iawn. Cynorthwya ein harweinwyr i wneud y gorau o'r potensial sydd o fewn yr Eglwys, er lles dy deyrnas. Yn enw Iesu. Amen.